BWRDD **TALIADAU**
**REMUNERATION** BOARD

16 Gorffennaf 2018

Annwyl Aelod Cynulliad,

Cyfarfu'r Bwrdd Taliadau ar 5 Gorffennaf. Mae'r canlynol yn grynodeb o'i drafodaethau a'i benderfyniadau.

***Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad***

Trafododd y Bwrdd bapur cwmpasu ar gyfer ei adolygiad o'r Penderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad a chytunodd ar ba feysydd o'r Penderfyniad y mae angen sylw arbennig arnynt yn ystod ei adolygiad. Caiff goblygiadau **rhaglen ddiwygio'r Cynulliad** gan y Comisiwn ar y Penderfyniad eu trafod gan y Bwrdd pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

***Effaith newid Arweinydd ar staff cymorth grŵp***

Rhoddwyd gwybod i'r Bwrdd am y tribiwnlys cyflogaeth presennol.

***Trafod yr Adroddiad Blynyddol drafft ar gyfer 2017-18***

Trafododd y Bwrdd Adroddiad Blynyddol drafft y Bwrdd Taliadau 2017-18 a chytunodd i gyhoeddi'r adroddiad maes o law.

***Llywodraethiant y Bwrdd o Gynllun Pensiwn Staff Cymorth Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru***

Trafododd y Bwrdd lywodraethiant y cynllun pensiwn ar gyfer staff cymorth a chytunodd y dylid cael corff dynodedig a fyddai'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar ran y cynllun. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r corff yn cynnwys y Pennaeth Pensiynau a chynrychiolydd o'r Bwrdd a'r Comisiwn. Cytunodd y Bwrdd y dylai'r corff hwn gyfarfod yn flynyddol.

***Adolygiad i nodi'r rhwystrau a chymhellion i sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru***

Nododd y Bwrdd yr adroddiad y trefnodd iddo gael ei gomisiynu gan Ganolfan Llywodraethiant Cymru, sef **Dadansoddi Amrywiaeth: Rhwystrau a chymhellion i sefyll yn etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**, a gyhoeddwyd ddydd Iau 5 Gorffennaf.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Taliadau@cynulliad.cymru
0300 200 6565

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Remuneration@assembly.wales
0300 200 6565

Cytunodd y Bwrdd i drafod y materion a godwyd yn yr adroddiad yn ystod gweddill ei gyfnod.

***Polisi Urddas a Pharch***

Nododd y Bwrdd yr **adroddiad canlyniadau** ar ôl Arolwg Urddas a Pharch diweddar y Comisiwn. Cytunodd y Bwrdd i drafod a oes angen iddo wneud newidiadau i'r polisïau presennol y mae'n gyfrifol amdanynt yn sgîl y Polisi newydd yn ei gyfarfod ym mis Hydref. Nododd y Bwrdd y byddai canlyniad **Ymchwiliad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad** hefyd yn hysbys erbyn hyn.

**Materion eraill**


Cytunodd y Bwrdd i dreialu ffurflen gais newydd i'r Aelodau a hoffai wneud cais am dreuliau eithriadol o dan adran 2.4 o'r Penderfyniad.

Hoffai'r Bwrdd ddiolch i bob Aelod a oedd yn bresennol yn y sesiwn galw heibio i'r Aelodau yn ystod y Cyfarfod Llawn ar 4 Gorffennaf. Croesawodd y Bwrdd yr adborth cadarnhaol a gafwyd ynglŷn â'r hyblygrwydd ychwanegol a gyflwynwyd ganddo'n ddiweddar i'r Penderfyniad a chytunodd i drafod y materion eraill a godwyd yn ei flaenraglen waith.

Caiff y llythyr hwn ei gyhoeddi ar ein gwefan hefyd, yn ôl ein harfer.

Os hoffech drafod unrhyw fater â mi, neu ag un o'm cyd-aelodau o'r Bwrdd, mae croeso i chi gysylltu â mi drwy’r **ysgrifenyddiaeth**.

Cofion gorau,



**Y Fonesig Dawn Primarolo**

**Cadeirydd y Bwrdd Taliadau**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.